YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 43. RHIF 3/4 AWST/MEDI 2021 50c

# LLWYDDIANT YR IEUENCTID



Mared Williams ac Ela Owen

*Llongyfarchiadau i Mared Williams ac Ela Owen ar eu llwyddiant academaidd. Bu'r ddwy yn brysur y llynedd yn gwneud gwaith ymchwil. Ffrwyth eu llafur oedd derbyn graddau ymsang (intercalated degrees) sef B.Sc (Mared) ac M.Sc. (Ela). I goroni popeth mae'r ddwy wedi graddio mewn Meddygaeth o Brifysgol Lerpwl eleni. Er eu hoffter mawr o Lerpwl mae'r ddwy am adael y ddinas i ddechrau eu gyrfa feddygol – mae Mared am fynd i Gaeredin ac Ela i Sheffield.*

*Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.*

*Estynnir llongyfarchiadau cywiraf Yr Angor i'r ddau frawd Michael a Mathew, plant Gwenan Haf ac Andrew Leeming, Woolton. Bedyddiwyd y ddau gan y Parchedig Ddr. D. Ben Rees yng nghapel hardd Heathfield Road, Lerpwl ac yn naturiol y mae'r fraint honno yn dod a balchter mawr i'r cyn-Weinidog o'u llwyddiant yn ennill graddau B.Sc gan gyrraedd y Dosbarth Cyntaf gydag anrhydedd a hynny mewn Quantity Surveying yn Adran Peirianeg Sifil ac Adeiladu Prifysgol John Moores. Daeth y ddau ohonynt i'r brig yn eu grŵp ac yn rhyfedd iawn yr oeddynt o fewn marc i'w gilydd ar ddiwedd y cwrs ac yn eu gradd. Nid oes rhaid dweud fod y ddau ohonynt wedi gweithio yn anhygoel o galed i gyrraedd y safon uchaf i gyd heb anghofio eu gallu cynhenid ym maes peirianeg. Mae'r ddau bellach wedi derbyn swyddi cyfrifol gyda chwmni a leolwyd yn Runcorn. Hyfryd yw deall bod y ddau ohonynt yn medru cyd-deithio gyda'i gilydd i'r gwaith bob dydd ac yn dwyn cyfrifoldeb o fewn yr un cwmni sydd yn meddwl fawr ohonynt. Llwyddodd taid y ddau, Roderick Owen, trysorydd yr Angor sydd yn meddwl y byd o'r ddau i gael Michael i gyflwyno sgwrs yn y Gymdeithas Gymraeg rhyw ddwy flynedd yn ôl ballch. Cydlawenhawn yn y llwyddiant haeddiannol hwn.*



*Michael a Mathew Leeming*

Golygyddol

# Trafod y Pandemig Peryglus: Canmol Fietnam – gan D. Ben Rees



*Baner Fietnam*

Nid oes gan y Golygydd ddewis mewn gwirionedd ond rhoddi colofn arall i'r aflwydd sydd ar gerdded trwy wledydd y byd. Aeth dros flwyddyn a hanner heibio ers i'r feirws ein cystuddio fel dynoliaeth a throi yn bandemig dychrynllyd ar yr un cynfas a'r ffliw Sbaenaidd yn 19198. Cafwyd dros can miliwn o achosion o Covid-19 gyda dros ddwy filiwn o bobl yn colli eu bywydau. Bob blwyddyn fe ddaw'r ffliw ond y mae Covid-19 mor wahanol i hwnnw.

Ar hyd y degawdau rhybuddiwyd arweinwyr y gwledydd fod feirws i ddod a fyddai'n anodd ei orchfygu. Galwyd aml i ymweliad gydag  enwau fel Sars, Mers, Ebola ac yn awr Covid-19, ac fe gawsom ein rhybuddio yn gyson o'r sefyllfa a oedd ar ddod. Gosododd y Cenhedloedd Unedig Fwrdd i baratoi ar gyfer yr ymweliad a elwid yn *Global Preparedness Monitoring Board* a chlywsom ganddo ym mis Medi 2019 fod yna pandemig ar y ffordd, ond gofidiai'r adroddiad nad oedd y gwledydd yn paratoi fel ag y dylid.

Cafodd y perygl ei anwybyddu. Gosododd Michael Roberts y sefyllfa yn glir i ni:

*Fossil fuel, mineral exploration and timber logging, plus industrial plantation farming and sprawling urbanisation, have brought pathogens which for thousands of years have been in wildlife such as bats and other remotely based animals into contact wirth farm animals and then with humans through wildlife food markets and farming. But governments did not want to know because effective action would mean the curbing of profitable industrial expansion.*

**A yw cyfalafiaeth yn medru gwneud cystal â Chomiwnyddiaeth mewn argyfwng y Pandemig?**

Nid llywodraethau yn unig oedd yn esgeulus, gellid cyhuddo cwmniau mawr sydd yn cynhyrchu drygiau ym myd fferylliaeth. Gellid fod wedi cychwyn hyn gynharach gan fod y dechnoleg ar gael i gynhyrchu brechlyn a fyddai'n gweithio yn dda. Ond cyn y pandemig, yr oedd 16 allan o 20 o gwmniau fferyllaeth mwya'r America yn ymwadu ag ymchwil i frechlyn i ddelio gyda afiechydon gan mae ymhlith tlodion y byd y ceid yr angen ac nid oedd elw o gwbl i ddelio gyda'r rheiny. Roedd ei holl ymdrech yn cael ei roi i afiechydon mwy amlwg, fel cancr. A phan ddaeth y feirws i'n blino yn Ewrop cawsom weld y gwledydd yn gwneud ei gorau ond heb unrhyw ganllawiau gan nad oeddynt wedi paratoi yn ddigon da. Credai Sweden er enghraifft nad oedd angen cau i lawr y gymdeithas, gellid cario ymlaen gyda bywyd ond ceisio cadw draw oddi wrth ein gilydd. Ni weithiodd hynny. Collwyd yn yr angau o leiaf ddeg gwaith mwy o bobl nag a gollwyd yn y gwledydd cyfagos oedd wedi cloi'r gymdeithas fel Denmarc, Norwy a'r Ffindir. Credai arweinwyr American a Brasil mai ffliw ydoedd ac nid oedd angen cadw draw na chysgodi yn y cartrefi. Bu hynny yn bolisi creulon i henoed America  a Brasil. Nid oedd cloi lawr yn ateb digonol ar gyfer y pandemig.

Y gwledydd a fu fwyaf llwyddiannus i reoli'r feirws ac i arbed bywydau gwerthfawr oedd y gwledydd a aeth ati yn unionsyth i gadw pobl o'u gwaith a'u chwaraeon a gafodd fynd o dan drefn profi a dilyn – *mass testing* – gwasanaeth iechyd ar waith a chydweithrediad ymhlith y gymuned. Meddylier am wlad fawr Siena lle cychwynodd y feirws yn Wuhan. Dim ond pum mil o bobl a gollodd eu bywyd yn y wlad fwyaf ei phoblogaeth ar y blaned. Llwyddodd Taiwan, De Corea, Seland Newydd yn rhyfeddol. Ond y wlad fwyaf nodedig ohonynt i gyd yw Fietnam gyda phoblogaeth o 97 miliwn. Dyma un o'r gwledydd cyntaf i gael eu taro gan y feirws, ac er iddynt ddioddef, llwyddwyd i gadw y rhif o farwolaeth yn isel, isel.

Ar 8 Rhagfyr, 2020 soniwyd fod 1,224 o bobl wedi cael y Covid-19 ond mae dim ond 35 o bobl a gollodd eu bywyd, y mwyafrif yn dioddef o glefydau eraill hirhoedlog. Mewn cyfnod o 99 diwrnod ni chafwyd enghraifft o berson yn gorfod mynd i ysbyty. Nid rhyfedd fod WHO, Mudiad Iechyd y Byd, yn gosod Fietnam fel yr enghraifft orau yn y byd i gyd o wlad a lwyddodd i orestyn yr aflwydd.

Pasiodd y Cenhedloedd Unedig ddatganiad yn canmol Fietnam am iddynt rannu ei hadnoddau, am iddynt roddi gofal i bobl nad oedd yn perthyn i'r genedl, ac am iddynt ofalu fod yr holl wasanaeth fel ym Mhrydain am ddim. Ni bu gwastraffu adnoddu prin ond gwasanaeth ymroddedig gan y meddygon, y labordai, yr ysbytai a holl wasanaeth y wlad hon a ddioddefodd yn enbyd o fomiau yr Amerig yn saithdegau o'r ugeinfed ganrif. Neges Fietnam yw hyn, na all unrhyw wlad oresgyn yr her ar ei phen ei hun. Mewn byd bach fel ein byd ni, mae'n rhaid fod yn unedig, a mwy unol yr ydan ni, gorau oll gan mae'r llwybr hwnnw yw'r unig ffordd i ennill y dydd. ysbryd *solidarity* sydd ei angen, a bellach mae'n rhaid llongyfarch Feitnam a'i llywodraeth Gomiwnyddol am y llyddiant anhygoel. Mae Seina yn haeddu yr un cyfarchiad gan iddynt hwythau wynebu'r sefyllfa yn benderfynol, a bu hwythau yn gefn i waith anhygoel gwladwriaeth Fietnam.



*Arlywydd Fietnam: Nguyen Xuan Phuc*

# CORONI'R BARDD

Siom fawr yw gohirio Eisteddfod Genedlaethol o 2021 i 2022 i Dregaron. Un o atyniadau mawr yr Ŵyl yw seremoni Coroni'r Bardd.

Rhoddir y Goron yn yr Eisteddfod am gerdd yn y mesurau rhydd, a dechreuwyd yr arfer mor bell yn ôl a 1867. Cynhelir seremoni liwgar ac atyniadol y Goron o dan ofal Gorsedd y Beirdd Ynys Prydain yn cael ei llywio gan yr Archdderwydd. A'r un presennol yw Myrddin ap Dafydd.

Y mae rhai o feirdd gorau Cymru wedi ennill Coron yr Eisteddfod, fel T. H. Parry-Williams a enillodd hi ddwywaith ym 1912 a 1915. Aeth Albert Evans-Jones (Cynan) gam ymhellach gan ennill y Goron deirgwaith, sef ym 1921, 1923 a 1931, fel y gwnaeth y newyddiadurwr Caradog Prichard ym 1927, 1928 a 1929 a hynny yn Lerpwl.

Erbyn hyn fodd bynnag ni chaniateir ennill y Goron fwy na dwywaith. Weithiau fe atelir y Goron am nad oes gwaith sydd yn haeddu'r anrhydedd, ond eithriad yw hynny, ond fe ddigwyddodd yn Ninbych yn 1939 pan oedd Niclas y Glais a Caradog Prichard yn gystadleuwyr.


Ffrind da a goronwyd blynyddoedd bellach oedd John Gruffydd Jones, un sy'n enedigol o Lŷn, ac yn byw yn Abergele: gwyddonydd o ran hyfforddiant. Coronwyd ef gan Archdderwydd yr adeg honno y diweddar Emrys Roberts, Llangadfan, neu Emrys Deudraeth, prifathro wedi ymddeol, ond yn wreididol o ddinas Lerpwl. Edrychwn ymlaen i goroni'r bardd, merch neu ddyn yn 2022.




*Myrddin ap Dafydd - yr Archdderwydd presennol*



*Coroni Caradog Prichard*



*Albert Evans-Jones (Cynan)*



*John Gruffydd Jones*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Hyfryd oedd gweld y Parchedig Robert Parry yn ymweld â rhai o'n haelodau yng Ngogledd Lerpwl y dydd o'r blaen gan ein bod yn gyfarwydd ar hyd y blynyddoedd gyda gofal bugeiliol. Y mae gweld y gweinidogion yn gofalu mor fedrus ar *zoom* yn godiad calon, a braf oedd cael cwmni y Parchedig Olaf Davies, Llangadfan, Parchedig Gwenda Richards, Caernarfon gan na chawsom ni ym Methania y cyfle i'w clywed yn ein cysegr. Ond cofiwn iddynt fod ym Methel.

Braint i ni fel Eglwys oedd cyflwyno swm anrhydeddus o £100 i gyllid *Yr Angor* gan ei fod yn ddolen gyswllt mor werthfawr i ni yn arbennig trwy gyfnod y pandemig. Ni chollwyd rhifyn ohono a chawn golofn Bethania fel Seion a Bethel ym mhob rhifyn. Y mae hyn i'w werthfawrogi yn ogystal ac ysgrifau difyr a wêl olau dydd yn ein papur bro ym mhob rhifyn. Boed inni barhau am flynyddoedd i ddod.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Rhyfedd fel y rhydd Amser*
*Ei bysedd yn dyner*
*Hyd edafedd y dyddiau.*
*A thoddi'r lliwiau i'w gilydd i gyd*
*Ar dapestri bywyd.*

Rhyw edrych yn ôl y byddwn ni yn aml y dyddiau hyn a chymharu ddoe a heddiw. Diolch am gael byw a chael iechyd i'w fwynhau. Braf yw cael deffro i ddiwrod newydd a gwneud yn fawr ohono – "edafedd y dyddiau yn toddi i'w gilydd i gyd ar dapestri bywyd".

Awn drwy gyfnod anodd ar hyn o bryd ond mae gobaith ar y gorwel. Rhaid bod yn ofalus ar hyn o bryd ac ufuddhau i'r cyfyngiadau er ein diogelwch.

Diolch am gael oedfa ar fore Sul drwy gyfrwng y *zoom*, a da cael ambell i ddarlith, seiat a dosbarthiadau Beiblaidd. Mae Dr. D. Ben Rees a'r Parch Robert Parry yn darparu a gofalu am ein hanghenion ysbrydol a diwylliannol.

Bu Mr. Ted Clement Evans, Aigburth, yn yr ysbyty yn dilyn codwn yn y cartref ond mae wedi cael dod adref erbyn hyn, a hithau Miss Mair Powell, West Derby wedi cael gofal a chwmniaeth yn y Townsend Hub, ond yn ei chartref erbyn hyn. Cydymdeimlwn â Mrs Menna Owen, Woolton ar ôl colli ei chwaer yng Nghymru.

Buom fel eglwys yn fawr ein consarn am y chwaer annwyl Mrs Louie Jones pan glywsom ar 25 Mehefin iddi gael trawiad trwm, ac am dros 80 awr bu yn anymwybodol. Yn wyrthiol agorodd ei llygaid i adnabod y merched a fu wrth erchwyn ei gwely yn Ward 2Y yr Ysbyty Frenhinol, ac yn awr mae'n dal ei thir. Gweddïwn y caiff ddod yn ôl i'r Cartref yn Stapley, Mossley Hill ar ôl cryfhau o'i chaethiwed. Meddyliwn am yr holl deulu yn eu pryder a'u gofal. Bu'r Gweinidog yn ymweld â Gwilym Lewis, Parc Sefton a da deall ei fod yntau yn gysurus ond yn hiraethu am y cynteddodd. Gwyddom fod eraill yn ei chael hi'n anodd a gofynnwn am iddynt gael bendithion yn eu hanghenion.

## Eglwys Seion, Laird Strret, Penbedw

Annwyl gyfeillion, anfonwn ein cyfarchion cynnes o Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw atoch i gyd gan fawr obeithio eich bod yn cadw yn iach a diogel.

Cefais sgwrs y pnawn yma gyda holl aelodau Seion ac 'rwyf yn falch iawn fod pawb yn cadw'n iach, heblaw yr annwyl Sarah Davies, ein aelod hynaf.

Mae Sarah yn dal i deimlo'n wan iawn ond yn cael pob gofal gan ei dwy ferch, Ann a Helen, sydd yn hynod o ofalus ohoni. 'Rydym ninnau ei chyfeillion o Seion yn meddwl amdani ac yn ei chofio yn ein gweddïau.

Rhwng *Yr Angor* a'r cyfarfodydd pob Sul ar *Zoom* mae gennym lawer i'm cadw yn ddiddyg yn ystod y mis.

Diolch o galon am rhifyn Gorffennaf o'r *Angor* gyda'i erthyglau diddorol iawn ac addysgiadol hefyd. Mae y tudalen flaen, gyda'r llun o Capel Salem, Cefn Cymerau a'r ddau lun gan Curnow Vesper (1908) a (1909) a'r ysgrif amdanynt yn arbennig o dda. 'Rwyf wedi dysgu llawer wrth ddarllen yr ysgrif a diolchaf yn fawr i David Williams (Karslake) am anfon yr ysgrif i'r *Angor*.

Mae'r Ysgrif Golygyddol gan D Ben Rees bob amser yn werth i'w darllen ac y mae ei ysgrif am Caradog Pritchard yn hynod o ddiddorol - Diolch yn fawr.

Mae'n debyg eich bod i gyd, fel finnau, yn mwynhau darllen am sefydlu Capeli Cymraeg yn Lloegr flynyddoedd maith yn ôl ac mae'r gyfres newydd gan y Barchedig Eleri Edwards werth ei darllen a diolchaf amdani.

Ers llawer o amser bellach mae Dr. Pat Williams yn anfon ysgrif i'r *Angor* pob mis, ysgrifau diddorol ac addysgiadol. Diolch yn fawr iawn i Dr. Pat hefyd. Byddaf yn edrych ymlaen i ddarllen Taro Post ac E-bost a hoffais yn arw yr englyn ardderchog gan Owain Ellis Roberts i Dr Ben.

Diolch hefyd am y ddwy deyrnged - un gan y Parch. Dr D. Ben Rees a'r llall gan Eirwen Sargent, gohebydd Cymdeithas Cymry Birkenhead i'r *Angor*. 'Roedd o ddiddordeb i ddarllen am Nat Magee a Gwenda Hughes a cael gwybod mwy amdanynt. Byddwn yn cael sgwrs gyda Nat yn y Gymdeithas a hefyd â Gwenda a trist iawn oedd clywed am farwolaeth y ddau gymeriad annwyl yma. Diolch hefyd i Roderick Owen am 'Cornel y Trysorydd' pob mis.

Erbyn hyn cawn fwynhau ddyddiau hyfryd yr haf. Mae'r gerddi a holl fyd natur ar eu gorau a'n hysbryd ninnau yn mwynhau y golygfeydd bendigedig. Ewch o gwmpas gyda'ch cyfeillion a gwneud y gorau o bob dydd ond byddwch yn ofalus i arbed cael cyfyngder eto.

Pob bendith arnoch i gyd.

# CORNEL Y TRYSORYDD



### AWST/MEDI 2021

| | |
|---|---|
| Mrs Beryl M Jones, Welwyn Grn. City | £150.00 |
| Mrs Betty Morris, Caer | £20.00 |
| Mr a Mrs Robyn Williams, Caergybi | £25.00 |
| Mrs Anne M Jones, Allerton | £50.00 |
| Mr David Mawdsley, Bodfari | £20.00 |
| Mrs Mary Evans, Caernarfon | £20.00 |
| Dienw, Childwall | £125.00 |
| Mr Ifor Griffith, Childwall | £100.00 |
| Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Rhodd Eglwys Bethania, Waterloo | £100.00 |
| **Cyfanswm** | **£635.00** |


**Roderick Owen (Trysorydd)**

# TARO POST AC E-BOST

### CYDNABOD Y PARCH IFOR OSWY DAVIES

*Annwyl Barchedig Athro D. Ben Rees,*

Yn dilyn eich erthygl ragorol am y diweddar Barchedig Ivor Oswy Davies fe anfonodd Janet, fy chwaer yng nghyfraeth, lun ohono a dynnwyd yn festri Eglwys Y Drindod Princes Road ar ddydd ei phriodas ar Fedi 19, 1964, ac mae felly yn un o'r lluniau olaf a dynnwyd ohono. Dyma eiriau Janet amdano: "Roedd yn syfrdanol yn pregethu, ac 'roedd ei lais a'i oslef yn rhyfeddol iawn." Tipyn o deyrnged ynte.



Efallai y bydd y canlynol o ddiddordeb. Pan gychwynais swydd newydd mewn ysgol ym Mhrestatyn yn niwedd y saith degau 'roedd fy olynydd, a oedd wedi ei eni a'i fagu yn Ffynnongroew, yn dweud fod y Parchedig Ivor Oswy Davies wedi colli brawd o'r enw Oswy, a foddodd pan yn blentyn yn yr Afon Dyfrdwy, ac ei fod wedi mabwysiadu yr enw Oswy er cof am ei frawd. Ni wn os yw hyn yn hollol gywir, ond os yw, mae'n dangos ei gariad ganddo tuag at ei frawd. Gan obeithio y bydd hyn o ddiddordeb.

*Eddie Roberts,*
*20 Collen Wen,*
*Llanfairpwllgwyngyll.*

**OEDFAON ZOOM GORFFENNAF AC AWST 2021**

**Bob bore Sul hyd ddiwedd Awst am 11 o'r gloch.**

**GORFFENNAF**

**<u>Sul, Gorffennaf 4:</u>**
**Parchedig Robert Parry**
**<u>Sul, Gorffennaf 11:</u>**
**Parchedig Aled Lewis Evans, Wrecsam a Chaer**
**<u>Sul Gorffennaf 18:</u>**
**Parchedig Robert Parry**
**<u>Sul, Gorffenaf 25:</u>**
**Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees**

**AWST**

**<u>Awst 1:</u>**
**Parchedig Eleri Edwards, Manceinion**
**<u>Awst 8:</u>**
**Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees**
**<u>Awst 15:</u>**
**Parchedig Eleri Edwards**
**<u>Awst 22:</u>**
**Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees**
**<u>Awst 29</u>: Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Môn ym Methel am 10.30 a Seion am 2.30.**
**Oedfa zoom i Manceinion o dan ofal y Parchedig Eleri Edwards**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**<u>Prif Swyddfa</u>**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**<u>Swyddfa arall</u>**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905

**CYFRES NEWYDD**

# MANCEINION DDOE A HEDDIW

## CAPEL HEYWOOD STREET

### Sefydlu Achos yn Heywood Street gan y Parchedig Eleri Edwards *(Rhan 2)*

**AR ÔL Y RHYFEL MAWR**

**1919**. Anfonwyd penderfyniad i'r Aelod Seneddol fel y canlyn: 'This congregation hereby registers its emphatic disapproval of the proposal to sanction the issue of Premium Bonds, believing this involves the pernicious principle of the lottery, stimulates the instincts for gambling, forsakes the high appeals to self-sacrifice and thrift, and encourages selfishness and speculation, thereby tending to lower the moral standards of the nation'. Anfonwyd gan y gweinidog E. Wyn Roberts.

Bu i'r Parch Ellis Wyn Roberts farw yn 1922 wedi rhoi diwrnod da o wasanaeth i'w Arglwydd. Yma gwelwn lun ohono yn ei wisg fel Caplan i'r lluoedd arfog yn y rhyfel gyntaf. Cymerodd ddwy flynedd i Gapeli Heywood Street gyda Victoria Park baratoi i alw gweinidog. Aeth tair blynedd heibio heb weinidog a chafwyd y gymeradwyaeth ganlynol gan y cyfarfod misol: ***'Pasiwyd ein bod yn llongyfarch yr Eglwys yn Heywood Street ar y wedd sydd ar yr Achos yno, ac yn dymuno iddynt arweiniad Pen Mawr yr Eglwys yn y dyfodol...'***



**MATERION EGLWYSIG A CHYMDEITHASOL**

1927 16 Ebrill: Gweinidogion y pedair eglwys yn cyfarfod yn Heywood Street ac yn penderfynu fel y canlyn: 1) Fod swyddogion bob Eglwys Sul nesaf i alw sylw yr Eglwys at gysegredigrwydd y Saboth ac i gymhell yn gynnes iawn fod yr aelodau yn cadw y dydd cysegredig i'r Arglwydd. 2) Fod sylw yr aelodau i'w alw at y symudiadau o eiddo y *Manchester Evening News* i gymeryd llais ei ddarllenwyr ar gwestiwn agor y darlundai ar y Saboth a chael caniatad i chwarae chwaraeon yn y Parciau ar y Sul. 3) Er nad ydym yn cydnabod tegwch y dull hwn o wneud pleidlais ar y mater, eto o dan yr amgylchiadau ein bod yn cynghori yr holl aelodau i arfer bob pwyll ac ystyriaeth i gofnodi eu pleidlais yn unol a'u proffes fel aelodau o Eglwys Crist. Pasiwyd y penderfyniadau yn unfrydol.

Drannoeth i'r cyfarfod uchod, derbyniwyd gair fod Eglwysi Rhyddion y dref wedi penderfynu annog holl aelodau yr Eglwysi i gymeryd rhan yn y bleidlais gan y teimlid os na buasai yr Eglwys Gristnogol yn datgan ei barn ar y mater hwn, cyhuddid hwy o fod yn ddifater i bwysigrwydd y mudiad....*yn y bleidlais cafwyd mwyafrif mawr iawn yn erbyn agor y darlundai a rhoddi caniatâd i chwarae yn y parciau ar y Saboth*.

**CYFNOD NEWYDD A VICTORIA PARK YN YMUNO A HEYWOOD STREET**

1927 17 Ebrill: daeth gweinidog newydd atynt sef y Parch W. J. Jones, a dau ddiwrnod ar ol hynny cyflwynodd yr anrhegion i weinidog eglwys arall, ond dyna a wnaeth Heywood Street i ganu'n iach i weinidog Pendleton, a chafwyd cyfarfod hwyliog iawn dan arweiniad Mr J.D. Jones i wneuthur hynny. Os oedd y cyfarfod ffarwelio yn debyg i gynhebrwng, yr oedd y cyfarfod yn Heywood Street yn debyg i briodas. Cafwyd eitemau cerddorol gan y Mri J. Ivor Hughes, Herbert Conway, a Misses Nancy Mills a C.F. Roberts yn adrodd, a thrwy garedigrwydd rhywun anhysbys darparwyd gwledd i'r corff hefyd.

Cyflwynwyd lamp hardd, cadair a drych i Mr a Mrs Williams ar ran yr Eglwys yn Heywood Street... Cafwyd anerchiad gan y Mri J. Ceinionydd Roberts, John Hughes, D.C. Roberts, H.R. Meirion Jones, Trevor Parry Jones, Francis Williams a Miss M.E. Williams.Wedi i Mr Williams ddiolch, anfonwyd ef a'r teulu a'r anrhegion mewn car modur i'w cartref ynghanol dymuniadau gorau y ffyddloniaid. Rwy'n dyfarnu bod y gweinidog wedi bod yn gymorth iddynt.



***Sêt fawr ac organ mawreddog capel Heywood Street.***

**DATHLU YN 1935.**
**HANES Y CYFUNDEB**
**A CHYD-WEITHIO YM MANCEINION**

Dyma flwyddyn hynod yn ein hanes, blwyddyn 'Dathliad Daucanmlwyddiant' sefydliad ein Cyfundeb yn 1735. Trefnwyd cyfarfodydd arbennig gan eglwysi'r cylch, i'w hatgoffa o'r bendithion a ddaeth inni trwy Ddiwygiad 1734-5. Cawn glywed pethau newydd a hen am y gwŷr a fu'n foddion o dan fendith Duw i ddeffro ein gwlad i sylweddoli ei dyletswydd tuag at Dduw. Trefnwyd caniadaeth ddethol ar gyfer y dathlu, a chyfarfodydd gweddi i erfyn am fendith y Nef ar yr achlysur.... Y mae gan bob un ei ddawn a'i dalent ac os yw pob un yn gweithredu yn ôl ei dalent, byddai adroddiad Eglwys y Presbyteriaid Cymreig Heywood Street am 1935 yn deilyngach na dim un a'i rhagflaenodd...Gwych o beth ydyw gweld ein bod, er ein gwahaniaethau bach, yn parhau yn yr ysbryd i gydweithredu. Dyna ogoniant crefydd ein Harglwydd Iesu Grist, bod lle i bob math ohonom yn ei winllan ef. 'Yn Nhŷ fy nhad mae llawer o drigfannau.'.... Cadwed yr Arglwydd ni yn ffyddlon i bob rhan o'r gwaith, ar y Sul a thrwy yr wythnos, canys ni wyddom pa bryd y daw yr Arglwydd heibio i ni.

Ydym yn bur, Y Swyddogion.

Yn 1937 cofnodir fod Capel Heywood Street yn dal i gynnal cyngerdd adeg y flwyddyn newydd er mwyn cael arian at yr Achos. Gwelwyd cyfeiriad at y tocynnau wedi eu prynu gan eglwysi Victoria Park, Pendleton, Stockport a Moss Side - prawf o'r eglwysi yn ceisio cynnal ei gilydd. Mae distawrwydd mawr dros gyfnod yr Ail Ryfel Byd hyd yn hyn ond fe ddaw mae'n siwr fwy o'r hanes cyn bo hir.

**GWEITHGARWCH Y CAPEL AR ÔL YR AIL RYFEL BYD**

Yn 1948 ar 4 Medi cafwyd Cyfarfod sefydlu un o fawrion ein cyfnod sef y Parch J.R. Roberts ('John bach fel y'i gelwid) gwr bach o gorffolaeth ond cawr fel cennad. Llywydd y cyfarfod y Parch D. L. Rees BA.BD., Moss Side. Darllenwyd rhan o'r Ysgrythur y Parch Llew Madoc Jones M. BD a fagwyd yn yr Henaduriaeth. Gweddiwyd gan Y Parch Idris Jones a'r Parch Arthur T. Williams. Yn y flwyddyn hon hefyd cafwyd Cymanfa Fawr Eglwysi Manceinion a oedd yn cynnwys Heywood Street

a’r tair Eglwys arall yn y ddinas. Cynhaliwyd y Cyfarfodydd yn Heywood Street: testun *Hunan Aberth’*yn seiliedig ar Mathew 6:32. *Yr Angen Amdano* - y Parch R. Lewis; *Y Ffurf Effeithiol Arno* – J. E. Meredith; *Y Dylanwad Parhaol Ohono* – E. Williams. Gweinidogion: Dr T. J. Jones, D. Tudor Jones ynghyd ag Eliseus Howells.

1949: Cymanfa eto: Testun: *Cristnogaeth: Crefydd i’r Byd* yn seiliedig ar Marc 16: 15-18. *Apêl Bersonol Cristnogaeth* – Parch D. Tudor Jones, Caernarfon; *Y Gymdeithas Eglwysig a Christnogaeth* – Parch Emyr Roberts, Trefor; *Neges Gymdeithasol Cristnogaeth* – Parch J. W. Jones, Conwy.

1952 Dathliad 80 mlwydd agor y Capel yn Heywood Street Cheetham, Manchester 8. A dyma’r rhaglen:

**Medi 6 Dydd Sadwrn,**
**5 o’r gloch**: Te i’r aelodau a’r hen aelodau ynghyd ag aelodau’r Henaduriaeth a’u gwragedd.
**7 o’r gloch:** Cyfarfod Dathlu: Llywydd - y Parch J. R. Roberts MA BD. Anerchir gan y Parch E. Wyn Roberts (Cricieth) y Parch R.H.Hughes BA BD (Porthaethwy) ynghyd â Mr J.R. Meirion Jones y swyddog hynaf.
**Medi 7 Dydd Sul:**
**10.30.** Oedfa Cymun Parch E.Wyn Roberts.
**2.30**. Cyfarfod y Bobl Ieuainc.
**6.00**. Pregethir gan Parch E. Wyn Roberts a Parch R.H.Hughes.

Meddai’r adroddiad o’r achlysur arbennig hwn: Mewn geiriau doeth a dethol ac yntau (y Parch R. H. Hughes) yn cyfeirio at y cydfforddolion yn ei flynyddoedd ef, ac yn hiraethu am y rhai a aeth dros y ffin yn y cyfamser. Wedyn aeth yr ysgrifennydd â ni i gyfnod ymhellach yn ôl, at y ddaear a’r ysbryd a symbylodd y tadau gynt i’r fenter o adeiladu capel hardd a’r cyfleusterau addoli sydd gennym yn awr. Nododd neillduolion nifer ohonynt, llawer o wahaniaeth ynddynt ond yr un sêl ganddynt am y pethau mawr. Cofiwn, pan ddaw pwl o ddiymadferthedd drosom, am ynni a haelioni yr hen saint a aberthodd gymaint dros eu ffydd a’u credo....’

Yn 1962 cafodd Arwel Evans ei fedyddio yng nghapel Heywood Street ac am fod y capel yn dathlu y 90fed flwyddyn ers ei adeiladu, rhoddwyd Testament Newydd iddo yn Gymraeg a Saesneg - roedd y blaenoriaid yn gwybod na fyddai’r capel yn dal ar agor i ddathlu ei ganmlwyddiant.

Anfonodd Arwel dau lun ataf o gasgliad a ei dad – yn yr un fe welwn blaenoriaid a oedd gyda’r gweinidog: Rhes gefn: Raymond Williams, O.T. Jones, Charles Williams, Huw Evans, Rhes flaen: R.T. Parry Jones, Parch R.J. Evans, George Jones.



## ATGOFION WILLIAM DAVIES AM HEYWOOD STREET

Ganwyd fi ar 6 Rhagfyr 1935 yn Crumpsall dair milltir i ogledd dinas Manceinion i rieni oedd yn Gymry: daeth teulu fy mam o Penmaenmawr a Phorthaethwy a theulu fy nhad o Cynwyd ger Corwen. Daeth fy nhaid a’i frawd i edrych am waith ym Manceinion yn y cyfnod rhwng 1900 a 1920, ag ymuno gyda chapel Cymraeg Heywood Street. Tra ar ei wyliau yng Nghymru, bu i nhad gyfarfod â mam ac yn y 1930au priodwyd hwy a dod i Fanceinion i fyw. Ymaelodasant hwythau hefyd yng Nghapel Heywood Street. Y gweinidog ar y pryd oedd y y Parch R. H. Hughes BA BD. Yntau a’m bedyddiodd yn 1936 a’m chwaer ym 1937. Roedd yna saith o flaenoriaid a thua 90 o bobl yn mynychu’r oedfaon ar y Sul y pryd hwnnw, a 60 yn yr Ysgol Sul. Roedd rhaid i’r rhan fwyaf o’r aelodau deithio mewn bws i gyrraedd y capel ac roedd y capel yn brysur iawn – ar wahân i oedfaon ar y Sul, roedd Seiat ar y Dydd Mercher, a grŵp yr Eirlysiau (Dirwest) i’r merched ifainc, a Chlwb y bechgyn ar nos Wener. Un waith y flwyddyn roedd gennym Gymanfa Ganu a drama ac arwerthiant i gasglu arian at y capel.

Yn y pumdegau, pan oeddwn yn fy arddegau daeth dau lanc o Gymru yr un oed â mi i chwilio am waith ym Manceinion. Daethant yn aelodau yn Heywood Street a ffeindiodd y ddau waith efo ICI Blackley Manceinion taith chwarter awr efo bws o’r capel. Roedd Stanley Thomas yn hannu o Gricieth a John Gruffith Jones o Nanhoron Lleyn. Daeth y tri ohonom yn ffrindiau mynwesol a dyma ni yn ymaelodi â’r Clwb Cymraeg ar Ashton Old Road mewn adeilad yn perthyn i British Rail. Roedd y clwb ar agor bob dydd Iau, dydd Sadwrn a Nos Sul: pêl droed, tennis bwrdd, hoci a dawnsio gwerin oedd y gweithgareddau a bu inni gystadlu mewn llawer o lefydd yng ngogledd Lloegr a Chymru! Roedd rhai aelodau o’r timau yn aelodau capel Heywood Street fel ni.’ Yn y chwedegau cynnar, priodais fy nghariad, Joan yng nghapel Heywood Street.Yn amlwg, am



***Priodas Joan a William Davies yng Nghapel Heywood Street***

gyfnod, roedd y capel hwn yn fwrlwm o weithgarwch, ond cyn bo hir cyn ei gau, cafwyd adroddiad yn dyheu am gael hyd i fwy o Gymry ifainc: ‘Cododd cenhedlaeth arall erbyn hyn gyda syniadau newydd a chyfeiriadau newydd i’w bywyd. Tybed’ meddai’r gweinidog yn ei adroddiad blynyddol ‘os nad oes angen diwygio ein harfau yn wyneb hynny? .... Gweddiwn am oleuni ac arweiniad i wynebu’r problemau, a ninnau’n barod i ystwytho’n rasol er gwasanaethu Duw yn ein hoes ein hunain...’

Yn 1959 ymadawodd y Parch Howell Roberts (tad y Dr Alwyn Roberts) ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth i Henllan, Dyffryn Clwyd. Gwerthfawrogodd y Capel yn fawr ei ymdrechion ac aeth nifer dda o aelodau Heywood St a Rochdale i Henllan .Cynrychiolwyd eglwys Heywood Street gan R.T. Parry Jones, a’r Henaduriaeth gan y Parch Llywelyn Hughes BA BD Moss Side. Ac yn yn 1970 caewyd drysau Heywood Street am y tro olaf. Mae’r ffydd a’r gobaith a’r cariad a roddwyd gan y capel hwnnw i bawb ohonom a ddaeth trwy ei ddrysau yn parhau i fod yn ffynnhonnell nerth i ni ple bynnag yr aethom byth wedyn. (Dyma dystiolaeth Mr William Davies a fu farw yn 2017)

Felly, bu i Heywood Street weld dyddiau y datgorffori a diflannodd yr adeilad yn gyfan gwbl ymhen amser oherwydd ail-wampio’r ardal gan y Cyngor wedi hynny. Atgofion yn unig sy’n aros a rhai lluniau – mae’r bobl a fu mor ffyddlon wedi gadael ôl eu troed i ni eu ddilyn. Diolchwn i Dduw am eu tystiolaeth.

# BEDWYR LEWIS JONES
## (1933-1992)


**gan Dr. Pat Williams**

Ysgolhaig a dawn llenor ganddo oedd Yr Athro Bedwyr Lewis Jones. Dechreuodd ar ei yrfa lenyddol yn ifanc iawn, pan ymgymerodd â'r swydd o fod yn Olygydd Cymraeg Omnibus, cylchgrawn Coleg Prifysgol Bangor ac yn hwnnw fe wnaeth sylw oedd yn dadlennu ei farn am gyfrifoldeb cymdeithasol myfyrwyr. Cwyno yr oedd am ddiffyg cefnogaeth i'r cylchgrawn drwy anfon erthyglau i mewn:

> Erys y ffaith drychinebus fod corff mawr y myfyrwyr yn yfed o fywyd a diwylliant y coleg heb feddwl bod arnynt, bob un, ddyletswydd i dalu'n ôl amdano.

Ac yn sicr dyna wnaeth yntau ar hyd ei oes, talu'n ôl i gymdeithas am y dysg a dderbyniodd ef ei hun.

Un o'i gyhoeddiadau cynnar eraill oedd *Blodeugerdd o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*. Mae'n dechrau ei ragymadrodd drwy ddweud nad yw cynnyrch y 19eg ganrif mor wych â'r hyn a'i rhagflaenodd ac a ddaeth ar ei ôl: 'Nid gwahoddiad i wledd yw'r cyflwyniad hwn', meddai, ond yr hyn sydd yn wledd yw rhagymadrodd y golygydd ei hun. Gwelir rhychwant eang ei ddysg a'i ddawn yn ei grynodeb o hanes llenyddiaeth Gymraeg o'i chychwyn cyntaf a'i eglurhad am y rheswm paham fod cyfraniad beirdd gorau'r 19eg ganrif yn bwysig i'r maes




*Ffrwyth ei waith ar enwau lleoedd*



*Bedwyr Lewis Jones*

barddoni. Gwelir yr un ehangder gwybodaeth yn ei gyhoeddiadau eraill. Mae'n llawn mor gyfforddus yn trafod chwedlau yn ymwneud â'r Brenin Arthur ag ydyw yn astudio gwaith llenorion diweddarach, fel Daniel Owen, R. Williams Parry a Waldo Williams.

Fel un a fagwyd yn Sir Fôn, roedd ganddo ddiddordeb mawr yn Goronwy Owen, a fu'n giwrad yn Lerpwl am gyfnod yn y 18fed ganrif, cyn iddo ymfudo i America. Bu Bedwyr yntau yn America ar drywydd Goronwy Owen ac ysgrifennodd nifer o erthyglau amdano yn Gymraeg ac yn Saesneg. Eglwyswr oedd Bedwyr ac ymddiddorodd yn yr 'hen bersoniaid llengar', sef grŵp o glerigwyr Anglicanaidd gwladgarol oedd yn awyddus i hybu defnydd yr iaith Gymraeg, a hyn yn groes i'r rhan fwyaf o'u cydweithwyr Seisnigaidd Torïaidd. Y pwysicaf o'r rhain oedd Ifor Ceri, Gwallter Mechain, Ieuan Glan Geirionydd, Ab Ithel a Charnhuanawc. Gellir deall eu hapêl i Bedwyr; roeddent o'r un anian ag ef ei hun.

Roedd yn ysgolhaig o fri ond credai na ddylid cyfyngu ysgolheictod i'r tŵr ifori eithr ei rannu gyda phawb yn ddi-wahân, ac fe wnaeth hynny yn gyson mewn ffordd glir ac mewn iaith goeth ddarllenadwy. Hyd yn oed wrth drafod llenyddiaeth gynnar, mae'n cadw at ei nod. Yn y gyfrol *Yr Aelwyd Hon*, sef diweddariad o'r cerddi Cymraeg cynharaf a gyhoeddwyd ar y cyd â Gwyn Thomas a Derec Llwyd Morgan, dywedir yn glir yn y rhagymadrodd nad llyfr ar gyfer ysgolheigion mohono ond 'llyfr ar gyfer y rhai na fedran nhw ddarllen yr hen gerddi hyn yn y gwreiddiol.'

Ond yr hyn a sicrhaodd boblgrwydd Bedwyr ymysg y cyhoedd yn gyffredinol oedd ei erthyglau a'i sgyrsiau radio ar ystyr enwau lleoedd, ac roedd ei ddehongliad ymddangosiadol syml yn cuddio gwaith ymchwil manwl a thrylwyr iawn. Mae ffrwyth ei waith ar enwau lleoedd i'w weld yn y ddwy gyfrol *Yn ei Elfen* ac *Enwau: rhai o ysgrifau ditectif geiriau* yn y *'Western Mail'*. Ar ôl ei farwolaeth cyhoeddwyd fersiwn Saesneg o'r gyfrol hon dan y teitl *Place Name Detective*. Dengys hyn eto fod ffrwyth ei ymchwil wedi cyrraedd darllenwyr ymhell y tu hwnt i gyffiniau academaidd.

Bu farw'n frawychus o sydyn ac yn gynamserol ond mae ei waddol yn fyw o hyd: sefydlwyd Canolfan Bedwyr, sydd yn darparu gwasanaethau ymchwil a thechnoleg ar gyfer y Gymraeg, fel teyrnged iddo ac mae wedi ei goffáu hefyd â cherflun gan John Meirion Morris, a saif y tu allan i ddrws Ystafell y Cyngor ym Mhrifysgol Bangor, lle y bu'n bennaeth Adran y Gymraeg am flynyddoedd lawer.



*Cafodd y penddelw, a gomisiynwyd gan Brifysgol Bangor, ei ddadorchuddio yn Ystafell y Cyngor, Prif Adeilad y Celfyddydau.*
*Yr arlunydd oedd John Meirion Morris.*

**Pulpud John Hughes yn Nghapel Pontrobert**



Cynlluniwyd y *linocut* hwn gan yr artist o Llanddaniel Fab a Llangefni - Rhys G. Morris

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484 aerontynycefn@gmail.com*

## DARLITHIAU
## Y GYMDEITHAS LENYDDOL A DOSBARTH CYMRAEG BETHEL

zoom

Cynhelir pum darlith yr haf a'r hydref hwn

1) Nos Lun, 19 Gorffennaf am 7.30
**Darlith ar y Ddau Ddoctor: Y meddyg Hugh Owen Thomas a Phregethwr y Bobl, Dr. Owen Thomas, Princes Rd., Lerpwl**
gan Dr. D. B. Rees.
Llywydd: Y Parch. Robert Parry

2) Nos Lun, 16 Awst am 7.30
**Y Gymuned Ddu yn Lerpwl gan Dr. D. Ben Rees**
Llywydd: Mr. Meirion Evans, Allerton

3) Nos Lun, 13 Medi am 7.30
**Waldo - Y Bardd Gwlad Cyfriniol gan Athro Emeritws E. Wyn James o Brifysgol Caerdydd**
Llywydd: Dr. D. Ben Rees

*Ceir darlithiau hefyd ym mis Hydref a Tachwedd. Mwy o fanylion yn rhifyn Hydref o'r Angor.*

## CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2021
(os bydd rheolau COVID yn caniatau)



**CLWB GOLFF WOOLTON**
**Dydd Mercher, Medi 1af, 2021**
**18 twll a chinio £35, Cinio yn unig £20**

Enwau i Dr John Williams erbyn Gorffennaf 30ain oherwydd bydd penderfyniad yn cael ei wneud bryd hynny os bydd yn bosibl cynnal y gystadleuaeth golff a chinio oherwydd rheolau COVID.

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

- **Rhifyn Hydref 2021** erbyn bore Mercher, 1 Medi 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com

- **Rhifyn Tachwedd 2021** – erbyn bore Gwener, 1 Hydref, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Mercher.

- **Rhifyn Rhagfyr 2021/Ionawr 2022 –** erbyn bore Llun, 1 Tachwedd 2021, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod. Hwn yn Rhifyn y Nadolig.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/9/2021.**

# CYFROL DDENIADOL AR GYMRY LERPWL

**D. Ben Rees,**
**THE WELSH IN LIVERPOOL – A REMARKABLE HISTORY**
**(Gwasg y Lolfa), 325 tt, £19.99**


Mae'r gyfrol sylweddol, hynod o ddeniadol hon (sydd ar gael mewn argraffiadau clawr caled a chlawr meddal fel ei gilydd) yn ffrwyth ymchwil a darllen manwl ers degawdau ar eu hyd ar ran yr awdur ymroddedig hwn. Er mai brodor o Sir Aberteifi ydyw, yn dilyn cyfnod byr yn gweinidogaethu yng Nghwm Cynon, bu'n gwasanaethu fel gweinidog ar ran y Methodistiaid Calfinaidd yn ninas Lerpwl byth ers 1968. Ac ym mis Gorffennaf 2018 daeth yn Ddinesydd er Anrhydedd y ddinas honno – clod mawr iddo.

O'r cychwyn cyntaf roedd ganddo ddiddordeb affwysol yn hanes ei ddinas fabwysiedig a'r cyffiniau, ardaloedd a fu'n gartref i nifer sylweddol o Gymry yn enwedig o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, llawer ohonynt yn ennill eu bywoliaeth o fewn dociau'r ddinas (tuedd a ddaeth yn fwy amlwg o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen), eu bywyd masnachol prysur, a'r nifer o ddiwydiannau a gynhelid yno, yn fwyaf arbennig y ffatrïoedd cotwm a ffynnai yno.

Ond, fel y mae'r awdur yn amlinellu'n raenus ym mhennod gyntaf y gwaith hwn, bodolai presenoldeb Cymreig yn ninas Lerpwl o'r oesoedd canol cynnar, a daeth nifer llawer iawn mwy sylweddol o grwydriaid yno o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, y rhain yn cael eu casáu ac yn aml yn cael eu trin yn eithriadol wael yn lleol. Yn ystod y 1550au cynnar, roedd un Cymro Cymraeg yn faer y ddinas – sef Dafydd ap Gruffydd – tra erbyn y 1770au diweddar teithiai nifer o unigolion o Ogledd Cymru yno i chwilio am waith. A phwnc pennod 5 yn y gwaith yw'r problemau a wynebai tlodion Cymreig y ddinas, yn fwyaf arbennig yr anhawster sylfaenol o sicrhau swyddi o fewn y dociau.

Mae cyhoeddiadau niferus dros ben yr awdur ar hanes cymunedau Cymreig dinas Lerpwl ers 1978 hyd at heddiw, pob un ohonynt yn ffrwyth gwaith ymchwil gwirioneddol arloesol, rhai ohonynt ar y cyd gydag awduron eraill, wedi eu rhestru o fewn yr ail atodiad i'r gyfrol hon (gweler tt. 305-06). Bu hefyd yn brysur yn traddodi'n rheolaidd darlithiau cyhoeddus ac anerchiadau ar yr un pwnc allweddol hwn.

Arbennig o wych yw sylweddoli y bydd y gwaith presennol, sydd i raddau helaeth yn gyfaddasiad o astudiaeth flaenorol yr un awdur sef *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl* (Y Lolfa, 2019), cyfrol a gafodd groeso brwd, o fewn cyrraedd hwylus disgynyddion o'r ail a'r drydedd genhedlaeth i ymfudwyr o Gymru, rhai sydd â mawr ddim crap ar yr iaith Gymraeg. Ym 1813 roedd rhyw 8000 o unigolion, tua 10 y cant o ddinasyddion Lerpwl, yn Gymry. Aethant ati i greu, ac yna ehangu, cymunedau arbennig o fewn y ddinas gyda'r Gymraeg yn brif iaith iddynt. Dirywio a wnaeth dylanwad y Cymry o fewn Lerpwl drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Yn ôl cyfrifiad 2001, dim ond rhyw 1.17 y cant o boblogaeth y ddinas a anwyd yng Nghymru, ond ceir yno o hyd nifer sylweddol o bobl sydd o dras Gymreig ac sydd yn parhau'n hynod falch o'u gwreiddiau Cymreig.




Mae'r astudiaeth yn llawn gwybodaeth ynghylch bywyd crefyddol egniol Cymry Lerpwl. Roedd ardaloedd fel Vauxhall, Anfield, Everton, Dingle, a Wavertree yn cynnwys cyfartaledd uchel o bobl o Gymru, a'r Gymraeg yn brif iaith eu haelwydydd. Erbyn y flwyddyn 1900, ceid yno ryw nawdeg o gapeli, eglwysi a neuaddau'r genhadaeth, a ffynnai'r mudiad dirwest yno hefyd. Trafodir nifer o'r capeli hyn o fewn pennod 8, gyda phennod 17 yn rhoi sylw manwl i ddiwygiad crefyddol 1904-05, gydag Evan Roberts yn ei arwain, pan roedd y ddinas yn gartref i nifer fawr o weinidogion anghydffurfiol tra dawnus.

Ymhlith y themâu eraill y rhoddir cryn sylw iddynt yma yw'r Cymry blaenllaw a ddaeth yn feddygon ac yn llawfeddygon yn y ddinas – fel y trafodir ym mhenodau 6 a 10. Yn eu plith roedd Evan Roberts, Hugh Owen Thomas a Syr Robert Jones, gŵr a ddaeth yn llawfeddyg orthopedig ym Mhrifysgol Lerpwl. Yn drist iawn, bu nifer ohonynt farw'n gynamserol, ond un eithriad oedd y Dr Emyr Wyn Jones (1907-99), un o hoelion wyth Infirmari Brenhinol Lerpwl ac un a wnaeth gyfraniad cyfoethog i fywyd cenedlaethol Cymru. Rhoddir sylw yma'n ogystal i hanes Ysgol Feddygol Prifysgol Lerpwl a'r Ysgol Meddyginiaeth Drofannol a sefydlwyd yn bennaf gan Syr Alfred Lewis Jones.

Neilltuir pennod gyfan (rhif 11 o fewn y gyfrol) i ystyried cyfraniad y ffotograffydd enwog John Thomas (1838-1905) o Galeri'r Cambrian, ac un a werthodd rhyw dair mil o'i blatiau i Syr O. M. Edwards a wnaeth ddefnydd arbennig ohonynt i ddarlunio ei gyfrolau a gwahanol rifynnau o gylchgronau.

Pynciau eraill a drafodir yma'n hollol feistrolgar yw cyhoeddi llyfrau a chylchgronau yn yr iaith Gymraeg yn Lerpwl, gyda nifer o'r cyfnodolion yn diflannu ar ôl ond ychydig o rifynnau. Ceir asesiad o gyfraniad helaeth cymuned Gymraeg y ddinas at ddatblygiad y Wladfa yn Ne America, rhai o ffigyrau llenyddol amlycaf y ddinas, a rhai o'r adeiladwyr blaenllaw a gyfrannodd mor helaeth at ddatblygiad y ddinas.

Erbyn y 1850au a'r 1860au, roedd nifer o Gymry'n cyfrannu'n helaeth at brosiectau adeiladu'r ddinas. Ac roedd un gŵr yn arbennig yn arwain y gad ym maes pensaernïaeth dinas Lerpwl, sef Richard Owens a fu'n cydweithio gyda gwerthwr coed o Gymru o'r enw David Roberts o D Roberts, ei Fab a'r Cwmni. Yn ystod y 1870au a'r 1880au, adeiladwyd bron i 4,300 o dai mewn pedair ystâd ar feysydd Parc Toxteth gan Richard Owens ar ran D Roberts, ei Fab a'r Cwmni. Mae'r 'Strydoedd Cymreig' wedi ennill eu llysenw cymunedol – yn ogystal â'u henwau unigol fel Powis, Madryn, Gwydir, Rhiwlas a Phengwern – gan mai gweithwyr o Gymru a'u hadeiladodd yn bennaf tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac efallai mai'r darn mwyaf enwog o bensaernïaeth Gymreig o fewn y ddinas yw Eglwys Bresbyteraidd Gymreig ar Stryd y Tywysogion, adeilad cofrestredig Graddfa II y cyfeirir ato'n fynych fel 'Yr Eglwys Gadeiriol Gymreig' neu 'Eglwys Gadeiriol Toxteth'.

Anghyffredin o ddefnyddiol yw atodiad 1 i'r gyfrol (gweler tt. 283-304) lle ceir bywgraffiadau cryno hwylus dros ben i nifer o'r unigolion a fu'n flaenllaw o fewn cymunedau Cymreig dinas Lerpwl. Mae rhai ohonynt yn sicr yn teilyngu gwaith ymchwil pellach ar eu cyfraniad. Ceir hefyd o fewn y gyfrol nifer fawr o blatiau a ffotograffau sydd yn gyfrwng pwerus i oleuo cynnwys yr astudiaeth.

Yn sicr rhoddir croeso cynnes i'r gwaith hwn, a gwelir pawb sydd yn ymddiddori yn hanes Cymru a hanes Lerpwl yn gwneud defnydd helaeth ohono.

***J. Graham Jones***

# Capeli Aberdâr a'r Cyffiniau ym 1914

## *gan D. Ben Rees*

Aberdâr oedd tref fwyaf Cwm Cynon pan benderfynodd y Rhyddfrydwyr yn 1914 nad oedd dewis gan Brydain ond ymladd ar lwybr rhyfel. Ac ymunodd Cwm Cynon fel pob cwm arall yng Nghymru gan anfon yr ifainc i faes y gad. Ond yn y flwyddyn y cyhoeddwyd y Rhyfel, roedd Cymry'r cwm yn brysur yn gwarchod crefydd a Chymreictod. Gwelwyd y tyrfaoedd yn dylifo i gapel y Presbyteriaid, sef Ebeneser, Cwmbach ar 3ydd Chwefror, 1914 i wrando ar y Parchedig Philip Jones ( Pontypridd, Llandeilo a Porthcawl) yn darlithio ar "O fôr i fôr." Daeth ef yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd ei gyfnod. Rhyddfrydwr mawr ydoedd fel cymaint o weinidogion capeli'r cwm. Clywyd gweinidog capel y Presbyteriaid, Bethania, Y Parchedig William Davies yn annerch y Blaid Ryddfrydol. Pan symudodd Kate Roberts o Ystalyfera i ddysgu yn Ysgol y Merched ym 1917, daeth hi a William Davies yn bennaf ffrindiau. Credai rhai o'u cyfoeswyr y byddai'r ddau yn priodi, ond ni ddigwyddodd hynny. Bu gwahanu yn eu hanes pan aeth William Davies o eglwys Bethania i ofalu ar ôl eglwys fawr Stanley Road, Bootle yn niwedd y Rhyfel.

Roedd pregethwyr ym 1914 ar bedestal uchel. Ar 28ain Mawrth, 1914, bu farw un o blant Aberdar, sef Mrs Jane Thomas, yn Heol Rhydychen, Aberpennar. Ei harwyr hi oedd dau o weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd, Bethania yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y Parchedig Ddr David Saunders (1831-92) pregethwr huawdl ym Methania o 1857 i 1862 cyn iddo symud i Lerpwl a dod yn Weinidog cyntaf Eglwys hardd Princes Road. Yr ail arwr oedd y Parchedig William James (1836-1908). Symudodd ef o Sir Benfro i Aberdâr ym 1863, a galwyd ef i fugeilio Bethania ym 1870. Arhosodd yno weddill ei oes, yn bregethwr grymus am 38 mlynedd. Soniai Jane Thomas am ddau arall o'r cewri, Parchedigion Silyn Evans a David Price. Ond medrai rhai o'r eglwysi fod yn gadarn, ac ym mis Ebrill 1914, pasiwyd y canlynol yng Nghapel y Bedyddwyr, Bethesda, Abercwmboi (un o'r ychydig gapeli sydd ar ôl yn y cwm) a'r unig gapel sydd yn y Gymanfa sydd yn haelionus i Gymdeithas Dydd yr Arglwydd yng Nghymru.)

'Penderfynodd Eglwys Bethesda, Abercwmboi nad oedd ei gweinidog i deithio ar y Sul; na chwaith y gweinidogion fyddo'n gwasanaethu'r eglwysi. Nid yw aelodau yr eglwys ym Methesda i gymryd rhan mewn cyngerdd ar y Sul.'

Edmygaf hwy'n fawr. Wedi'r cyfan, y mae fy mhriod Meinwen yn ferch i'r Parchedig Arthur Llewellyn (1904-1960) gweinidog olaf llawn amser Bethesda. Bu ef yn ddylanwadol iawn, a braint oedd ei adnabod. Bu Abercwmboi yn hynod o ffodus yn y criw bach o bobl gadarn, gefnogol, gydwybodol a fu fyw yno o ddyddiau Philip Rees a'i fab, Jonah Rees a David Watkins – pob un o'r tri yn byw yn Bronallt Terrace. Organyddes Capel Bethesda oedd Mrs M. A. Richards. Chwaraeuai Jonah Rees yr organ yn Eglwys Bethlehem,



Bethesda, Abercwmboi

Abercwmboi. Jonah Rees oedd cyfeilydd Côr Bechgyn Abercwmboi, Côr bach Abernant a Chôr Plant Aberpennar. Clywid sôn am ganu'r capeli hyn. Meddylier am gapel Soar, Cwmaman lle y pregethais lawer gwaith. Collwyd oddi yno y cerddor, John Roberts ar 9fed Medi, 1914. Un o Acrefair ydoedd, ond blaenor y gân yn Soar am ddeugain mlynedd. Meistrolodd holl emynau William Willliams, Pantycelyn ac Ann Griffiths ar ei gof. Dywed y papur lleol, *Tarian y Gweithiwr,* ar Hydref 1af, 1914:

*Byddai sôn am ganu Soar ymhlith llawer o weinidogion De a Gogledd. Bu Ysgol Gân Soar yn dra phoblogaidd. Nos Wener y Groglith, 1914, anrhegwyd pobl y gân, sef Abraham Watkins, organydd Capel y Bedyddwyr, Ynyslwyd a Mrs Spencer Williams, organyddes Capel Noddfa, Trecynon.*

Diddordeb mawr arall Cymry Capeli Aberdâr a'r cyffiniau oedd y ddrama. Deuai D. Clydach Thomas o bentref Clydach yng Nghwm Tawe yn gyson i Aberdâr i actio cymeriadau Daniel Owen. Cofiaf y Parchedig Rhydwen Williams, Trecynon yn ein dyddiau ni yn cyflawni'r un gamp. Pethynai Cwmni Drama campus i gapel yr Annibynwyr, Saron, Aberaman. Collwyd actiwr amatur penigamp ar 19eg Chwefror, 1914 ym marwolaeth Samuel Davies, Trecynon, ac yntau ond yn 32 oed. Daeth ef yn drwm o dan ddylanwad Diwygiad Crefyddol 1904-5. Gadawodd i alaru ar ei ôl weddw a dau blentyn.

Roedd pobl gerddorol y cylch yn dal i gofio y Côr Mawr gyda Griffith Rhys Jones ('Caradog:' 1834-97) yn arweinydd delfrydol. Ym 1858 y penodwyd ef yn arweinydd Côr Undebol Aberdâr, ac ynglŷn â'i waith fel arweinydd y côr hwnnw y daeth i amlygrwydd yn Ne Cymru. Un o aelodau y côr enwog oedd Jane Lewis, Y Gadlys – alto eneiniedig, a bu hi farw ym mis Chwefror 1914. Ar ôl i Caradog adael Cwm Rhondda am Dreorci, bu Jane Lewis yn aelod o gorau eraill, a bu'n ffyddlon odiaeth i Gôr W. C. Thomas. Gwelwn fod Cor Cymysg bron ym mhob capel. Ceid côr yn perthyn i gapeI y Bedyddwyr, Calfaria, Aberdar o dan arweiniad Daniel Griffiths. Perfformiodd y côr y Messiah ar ddechrau'r flwyddyn 1914. Cerddor arall a gollwyd yng ngwanwyn 1914 oedd John Humphreys, aelod o gapel y Presbyteriaid, Bryn Seion, Trecynon a chyfaill cywir i Caradog. Byddai ef yn unawdydd i'r côr - yn wir, i nifer fawr o gorau a chyngherddau, a daeth yntau yn drwm o dan ddylanwad Diwygiad Evan Roberts. Disgwylid i'r cerddorion a'r adroddwyr fod yn brysur dros Ŵyl y Nadolig. Meddylier bod Capel yr Annibynwyr, Soar, Aberdâr yn cynnal EISTEDDFOD ar ddydd Nadolig a Chapel Bethania y diwrnod trannoeth, Gŵyl San Steffan, sef 26ain Rhagfyr. Ym 1914, enillodd y bardd, John Price (Ioan Eithrin) y brif wobr ar y delyneg. Pwy oedd ef, tybed?

Un o ragorolion y fro oedd y Parchedig John Phillips, Aberpennar, gŵr a gafodd ei ganmol gan englynwr di-enw. Dyma'r englyn:

*Gŵr yw Phillips gorffola – ynddo'i hun*
*Ddoniau y Gymanfa,*
*Yn ei goeth bert bregeth bydd*
*Cu leferydd Calfaria.*


Dengys yr ysgrif hon frwdfrydedd aruthrol yn Aberdâr a'r cyffiniau mewn blwyddyn arwyddocaol iawn yn hanes cyfandir Ewrop a'r byd.


# CYFLWYNO COFIANT SAESNEG




*Theo Davies Lewis, Llanelli ar ran Cyhoeddiadau Modern Cymreig (chwith) yn cyflwyno cofiant Saesneg a ysgrifennwyd gan Dr D. Ben Rees ar Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru y Gwir Anrhydeddus James Griffiths yn Whitehall i Simon Hart, Ysgrifennydd Gwladol Cymru heddiw*

---




***CYNHELIR CYFARFOD LANSIO PAN FYDD COVID YN CANIATAU***